Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Clinig Athrofa Ceiropracteg Cymru, Pontypridd

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Ebrill 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 18 Gorffennaf 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN Digidol 978-1-83504-379-0
© Hawlfraint y Goron 2023

Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff yng nghlinig Athrofa Ceiropracteg Cymru yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Nododd pob claf a oedd wedi cwblhau holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y practis hefyd yn gwbl hygyrch, gydag ardal aros fawr, ystafelloedd trin ar y llawr gwaelod a thoiled i bobl anabl.

Roedd yn amlwg o ganfyddiadau ein harolygiad, bod y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig.

Roedd prosesau perthnasol ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i amddiffyn iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn y clinig.

Gwelsom dystiolaeth o gofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant gorfodol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Athrofa Ceiropracteg Cymru, Pontypridd ar 13 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y staff yng Nghlinig Athrofa Ceiropracteg Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, gan gynnal eu preifatrwydd a'u hurddas ar yr un pryd. Roedd yr amgylchedd yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ac roeddent yn gwbl hygyrch ym mhob rhan o'r clinig.

Roedd y staff yn y clinig yn ymrwymedig i gael adborth gan y cleifion. Gellid cael arolygon cleifion o ddesg y dderbynfa ac roedd blwch awgrymu yn yr ardal aros hefyd.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd yr adborth yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol, gyda chleifion yn nodi'r gwasanaeth a'r gofal a geir yn 'dda iawn'.
- Caiff amrywiaeth dda o wybodaeth i gleifion ei harddangos yn glir yn ardal aros y clinig.
- Roedd dogfennau gan gynnwys y canllaw i gleifion a'r weithdrefn gwyno ar gael yn ddwyieithog.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*"Roedd yn wych."*

*"Darparwyd gwybodaeth drylwyr a da iawn."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar gael, a oedd yn hyrwyddo darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd pob polisi yn fanwl, yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiadau rheolaidd i'w hadolygu.

Roedd yn amlwg bod y clinig mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, ac roedd yn addas at y diben ar gyfer pob agwedd ar y triniaethau a ddarperir.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn glir, yn ddarllenadwy ac yn gyfredol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd yr amgylchedd yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a ni welsom unrhyw beryglon amgylcheddol a fyddai'n peri risg i'r staff neu'r cleifion sy'n ymweld â'r clinig.
- Roedd pob cofnodion clinigol y cleifion yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.
- Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom dystiolaeth fod llinellau atebolrwydd clir a strwythurau rheoli ar waith yn y clinig. Roedd y lefelau staffio yn ddigonol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a gwnaethom gadarnhau bod cymysgedd priodol o sgiliau ar gyfer y driniaeth a ddarperir.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, a gwelsom dystiolaeth o fatrics hyfforddiant cynhwysfawr ar waith er mwyn cadw cofnod o hyn.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen i'r staff sicrhau bod cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer pob cyfarfod staff.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.
- Gwelwyd tystiolaeth o gydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol i staff.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

